

AMGUEDDFA CYMRU



ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL YR IAITH GYMRAEG

Cynnwys

1.	Trosolwg	3
2.	Cyngor polisi, cyfieithu a chreu cynnwys Cymraeg	5
3.	Y safonau iaith yng ngwaith yr Amgueddfa	5
4.	Cyflenwi Gwasanaethau (safonau 1-83 a safonau atodol 149-154)	6
4.1.	Gohebiaeth ysgrifenedig	6
4.2.	Cysylltu dros y ffôn	6
4.3.	Cyfarfodydd	7
4.4.	Rhaglen gyhoeddus Amgueddfa Cymru	7
4.5.	Deunydd print a gynhyrchir gan Amgueddfa Cymru	9
4.6.	Y wefan, deunyddiau digidol a chyfryngau cymdeithasol	10
4.7.	Derbynfeydd	10
4.8.	Tendro	11
5.	Llunio polisi (safonau 84-93 a safonau atodol 155-160)	12
5.1.	Cyfrifoldeb	12
5.2.	Llunio, adolygu neu addasu polisi	12
5.3.	Comisiynu neu wneud gwaith ymchwil	12
6.	Gweithredu (safonau 94-140 a safonau atodol 161-166)	13
6.1.	Polisi newydd i gynyddu ein defnydd mewnol o'r Gymraeg	13
6.2.	Darparu dogfennau dwyieithog	14
6.3.	Cwynion mewnol a gweithdrefnau disgyblu	14
6.4.	Meddalwedd TGCh	14
6.5.	Y Fewnrwyd	15
6.6.	Hyfforddiant iaith	15
6.7.	Recriwtio	16
7.	Cadw cofnodion (safonau 141-148 a safonau atodol 167-168)	17
7.1.	Asesu sgiliau iaith staff	17
7.2.	Cyrsiau hyfforddi	19
7.3.	Datrys cwynion	20

1. Trosolwg

Dyma gofnod o'n cydymffurfiaeth â'r gofynion statudol a nodir yn y Safonau Iaith Gymraeg yn ogystal â'n gwaith ehangach ar y Gymraeg ar draws Amgueddfa Cymru yn ystod 2025-26. Er bod gwreiddiau ein Polisiâu Iaith Gymraeg yn y Safonau, mae ein gwaith hefyd yn adlewyrchu ein cyfraniad at strategaeth Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050*, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) ac yn benodol y nod llesiant 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Mae'r Hysbysiad Cydymffurfio, ein polisiâu iaith, a'n hadroddiadau blynyddol blaenorol, i'w cael ar ein gwefan www.amgueddfa.cymru/ygymraeg.

Mae'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o dreftadaeth a diwylliant Cymru, felly mae gan Amgueddfa Cymru ran allweddol i'w chwarae wrth feithrin ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru, a'i defnyddio a'i dathlu wrth ein gwaith beunyddiol. Rydym yn falch iawn o'r gwaith ehangach a wnawn er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, ei hybu a'i hyrwyddo, yn ogystal â'n datblygiadau ym maes dehongli a dylunio dwyieithog. Mae'r Gymraeg yn rhan greiddiol o'n strategaeth deg mlynedd, *Amgueddfa Cymru 2030*.

Mae ein hamgueddfeydd yn ganolfannau cadarn i'r Gymraeg yn eu cymunedau, lle mae'r Gymraeg yn cael ei gweld, ei chlywed, ei defnyddio a'i dathlu. Mae cefnogi'r seilwaith hwn yn hollbwysig er mwyn creu'r amgylchiadau ar gyfer defnyddio iaith. Rydyn ni'n cefnogi ein staff (gan gynnwys Ymddiriedolwyr, Gwirfoddolwyr a Chynhyrchwyr Amgueddfa Cymru) i ddysgu a defnyddio'r iaith am fod ganddynt rôl allweddol wrth ddarparu ein gwasanaethau, wrth greu gweithleoedd dwyieithog, ac fel lladmeryddion ar ran yr iaith boed hynny yn ein hamgueddfeydd neu du hwnt i'r gweithlu. Rydym yn deall fod creu defnyddwyr hyderus yn y gweithlu yn creu defnyddwyr fydd yn hyderus i ddefnyddio'u Cymraeg yn eu cymunedau a'u cartrefi hefyd.

Dyma flas ar yr uchafbwyntiau 2025/26:

- Cyhoeddi polisi newydd sbon *Amgueddfa Fyw, Iaith Fyw* er mwyn cynyddu ein defnydd mewnol o'r Gymraeg a gosod ein huchelgais tymor hir ar gyfer yr iaith o fewn Amgueddfa Cymru. Mae'r polisi'n creu strwythur unigryw sy'n caniatáu i bob amgueddfa a safle lunio cynllun datblygu sy'n ymateb i'w hanghenion, demograffeg a chymeriad unigryw tra'n sicrhau sylfaen gref ar draws Amgueddfa Cymru.
- Cynnal rhaglen gyhoeddus o ddigwyddiadau, arddangosfeydd a chyfleoedd i ddefnyddio'r iaith a chroesawu cynulleidfaoedd newydd at yr iaith ac atom ni, gan gynnwys arddangosfa *Hip Hop: Stori Cymru* a *Gwen John: Hardd a Hynod* yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, ac Amgueddfa ar y Lôn gan Amgueddfa Lechi Cymru a deithiodd i leoliadau newydd tra bydd y safle ar gau oherwydd ailddatblygu. Mae ein croeso a'n gwaith dehongli a dylunio yn parhau i flaenoriaethu a dathlu'r Gymraeg gan fynd tu hwnt i gydymffurfiaeth ble bynnag y bo modd.
- Mae ein digwyddiadau ar y cyd â Mentrau Iaith ar draws Cymru yn dal i fynd o nerth i nerth – croesawyd 4,762 o ymwelwyr i Wyl Tawe yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, a cynhelir clybiau a digwyddiadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd ar draws ein hamgueddfeydd.
- Ehangu ein seilwaith data ar gyfer y Gymraeg yn fewnol trwy gynnal, am y tro cyntaf erioed, arolwg staff cynhwysfawr am eu hyder i ddefnyddio'u Gymraeg yn y gwaith a thu hwnt, y Gymraeg o fewn Amgueddfa Cymru a'u agweddau tuag at yr iaith.
- Mae dros 56% o staff Amgueddfa Cymru yn nodi rhyw lefel o allu yn y Gymraeg, gyda thros 36% ar lefel Canolradd ac uwch. Mae 89% o staff Amgueddfa Cymru sydd ddim yn siarad Cymraeg yn teimlo fod y Gymraeg yn destun balchder. Rydym wedi penodi Tiwtor Cymraeg Gwaith ar gyfer y corff dan nawdd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol fydd yn cynnal cyrsiau mewnol yn 2026/27 wedi'u teilwra at anghenion timoedd ac adrannau.

Yn ystod 2025/26, ni ddaeth unrhyw gwynion i law gan swyddfa'r Comisiynydd Iaith. Cafwyd un gŵyn fewnol gan aelod o staff parthed camgymeriadau mewn llythyr mewnol. Cafwyd dau gŵyn allanol, y naill am iaith cwrs yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a'r naill am nwyddau yn siop Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru. Mae manylion y cwynion a'r camau gweithredu a gymerwyd yn eu sgil yn adran 7.3.1.

Grŵp Monitro'r Gymraeg a Chydraddoldeb, dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Profiad, Addysg ac Ymgysylltu sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth Amgueddfa Cymru â'r safonau iaith ac adolygu'r gwaith o roi ein polisïau iaith ar waith ar draws y corff. Mae'r grŵp yn cwrdd yn chwarterol gan adrodd i'r Pwyllgor Addysg ac Ymgysylltu sef un o Bwyllgorau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr. Cynhelir y cyfarfodydd yn ddwyieithog gan ddefnyddio cyfieithydd ar y pryd er mwyn cadw aelodaeth y grŵp yn eang.

2. Cyngor polisi, cyfieithu a chreu cynnwys Cymraeg

Mae gan Amgueddfa Cymru dîm cyfieithu mewnol sy'n darparu gwasanaethau cyfieithu Cymraeg i Saesneg a Saesneg i Gymraeg, drafftio ochr yn ochr, gwasanaeth golygu, gwasanaeth gwirio gwaith cydweithwyr, gwasanaeth prawffddarllen, geirfa ar-lein, ac yn cynghori ar gynnwys a dylunio dwyieithog. Rydym hefyd yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu papur a chyfieithu ar y pryd gan gwmnïau preifat yn ôl y galw. Defnyddir Fframwaith Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Llywodraeth Cymru er mwyn caffael gwasanaethau cyfieithu allanol ble bynnag y bo modd.

Mae Rheolwr y Gymraeg yn cynnig arweiniad a chynghori i staff yr Amgueddfa ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg a chydymffurfio â safonau'r Gymraeg a pholisïau iaith yr Amgueddfa. Rydym hefyd yn cyfrannu at drafodaethau ehangach ynghylch y Gymraeg ar lefel leol a chenedlaethol. Eleni, rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda swyddfa'r Comisiynydd Iaith mewn amryw feysydd gan gynnwys cynyddu defnydd mewnol o'r Gymraeg, ymateb i geisiadau am wybodaeth a chymryd rhan yn y gynhadledd *Dysgu, Datblygu, Defnyddio* fis Gorffennaf 2025.

Fe barhawyd i ailasesu'r iaith a ddefnyddir wrth ddad-drefedigaethu'r casgliadau cenedlaethol, gan geisio cyfrannu at greu a defnyddio geirfa Gymraeg gyfoes a chydrradd. Byddwn yn parhau i gydweithio a chyd-drafod â'n cymunedau a'n partneriaid ynghylch y gwaith pwysig hwn.

3. Y safonau iaith yng ngwaith yr Amgueddfa

Mae dyletswydd gyfreithiol ar Amgueddfa Cymru i gydymffurfio â safonau iaith sy'n cwmpasu pedwar maes, sef cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu a chadw cofnodion. Ni chafodd safonau'r categori Hybu eu gosod ar Amgueddfa Cymru. Fodd bynnag, mae hybu a hyrwyddo'r gwasanaethau Cymraeg a dwyieithog a gynigiwn, a dathlu defnydd a datblygiad yr iaith, yn rhan annatod o'n gwaith. At ddibenion yr adroddiad hwn, lle bo ein gwaith yn pontio anghenion gwahanol safonau, adroddir arnynt yn y man y tybiwn sydd fwyaf perthnasol.

4. Cyflenwi Gwasanaethau (safonau 1-83 a safonau atodol 149-154)

4.1. Gohebiaeth ysgrifenedig

Mae'r templedi llythyron, ein gwefan a negeseuon awtomatig e-byst yn cynnwys geiriad safonol ynghylch croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.

Ceir arwydd iaith Gwaith ym mhob derbynfa ac mae staff dwyieithog ar gael wrth bob derbynfa. Mae rheffynnau a bathodynnau iaith Gwaith ac iaith Gwaith/Dysgwr ar gael i'r holl staff ac rydym yn annog eu defnydd lle bynnag posibl.

Hysbysir pob aelod o staff newydd am yr angen i sicrhau llofnod e-bost a neges peiriant ateb dwyieithog yn y sesiwn gynefino orfodol, yn rhan o gyflwyniad ehangach am y Gymraeg a'r safonau yn Amgueddfa Cymru.

Mae unrhyw eiriad safonol a ddefnyddir hefyd ar gael yn ein Geirfa ar-lein www.amgueddfa.cymru/geirfa sydd ar gael i'n staff a'r cyhoedd.

4.2. Cysylltu dros y ffôn

Mae ein system ffonau yn gweithredu'n bennaf trwy gyfrifiaduron yn hytrach na ffonau pen desg. Mae'r system yn awtomeiddio profiad y defnyddiwr i raddau helaeth, ond mae hyn wedi ein galluogi i sicrhau dewislenni a gwybodaeth Gymraeg naturiol a hwyliog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf bob tro. Darparwyd hyfforddiant i staff am ofynion y Safonau mewn perthynas â'r system sydd hefyd ar gael yn barhaus ar y Fewnrwyd. Nid yw prif rif ffôn yr Amgueddfa wedi newid.

Os bydd angen siarad ag aelod o staff, bydd y staff dethol sy'n ateb prif linell ffôn Amgueddfa Cymru yn ateb galwadau ffôn yn ddwyieithog (yn Gymraeg yn gyntaf ac yna'n Saesneg) gan hysbysu'r galwr bod modd cael gwasanaeth Cymraeg. Gellir gwirio dewis iaith aelodau staff y cyfeirir yr alwad atynt ar y Fewnrwyd hefyd. Mae negeseuon electronig prif linell ffôn yr Amgueddfa yn cyfarch y galwr yn ddwyieithog (yn Gymraeg yn gyntaf ac yna'n Saesneg) ac yn hysbysu'r galwr y caiff adael neges yn Gymraeg.

Pan fyddwn yn ffonio unrhyw unigolyn am y tro cyntaf, byddwn yn gofyn a yw'r unigolyn yn dymuno derbyn galwadau ffôn gennym yn Gymraeg. Os mai dyna ddymuniad yr unigolyn, cedwir cofnod o'i ddymuniad. Mae trefniadau adrannol ar waith ar draws Amgueddfa Cymru ar gyfer hyn.

4.3. Cyfarfodydd

Rydym yn creu cyfleoedd i ddefnyddio cyfieithu ar y pryd fel dull o gynyddu ein defnydd mewnol o'r Gymraeg a chefnogi staff sydd am weithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Er enghraifft, darperir cyfieithu ar y pryd yn holl gyfarfodydd Grŵp Monitro'r Gymraeg a Chydraddoldeb, y Fforwm Arweinyddiaeth, sesiynau briffio'r holl staff, cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau'r Ymddiriedolwyr a chyfarfodydd project ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru. Mae canllawiau i Gadeiryddion ar gael ynghyd â geiriad safonol, sy'n seiliedig ar ganllawiau cyfieithu ar y pryd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru a *Dogfen Cyngor: Drafftio Dwyieithog, Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd* y Comisiynydd Iaith. I ddatblygu ein gallu i gynnig cyfieithu ar y pryd i gefnogi gweithio dwyieithog, gan gynnwys yn y cyfarfodydd uchod, byddwn yn recriwtio Cyfieithydd ar y Pryd/Cyfieithydd mewnol yn ystod 2026.

Lle bo cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn Gymraeg ar draws y corff a bod gofyn adrodd am y cynnwys i'r Uwch Dîm Gweithredol, caiff y cofnodion eu llunio yn Gymraeg a chaiff trosolwg Saesneg ei ddarparu i'r Uwch Dîm Gweithredol.

4.4. Rhaglen gyhoeddus Amgueddfa Cymru

4.4.1. Arddangosfeydd

Mae pob arddangosfa a gynhyrchir yn fewnol gennym yn ddwyieithog. Nid yw'n ofynnol i ni gyfieithu arddangosfeydd dros dro allanol sy'n cael eu cynnal yn ein hamgueddfeydd yn ôl y safonau iaith. Serch hynny, ein polisi yw y dylai pob arddangosfa a gynhelir yn ein hamgueddfeydd gael ei chyflwyno yn ddwyieithog. Wrth wneud hyn, rydym yn arbrofi â dulliau dehongli dwyieithog ac mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at ein dealltwriaeth ac arferion ym maes dehongli a dylunio dwyieithog. Yn eu plith eleni, cynhaliwyd *Hip Hop: Stori Cymru*, *Gwen John: Hardd a Hynod*, *John Akomfrah: Gwrando drwy'r Nos ar y Glaw* a mwy yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd; arddangosfa ffotograffiaeth *Gwaith Merched* ac arddangosiadau newydd am Terrence Higgins, Menywod a Chwaraeon a Thîm Pêl-droed Menywod Cymru yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru.

Ers mis Tachwedd 2024, mae Amgueddfa Lechi Cymru ar gau i'r cyhoedd yn ystod cyfnod y project ailddatblygu. Tra bydd yr Amgueddfa ar gau, cynhaliwyd arddangosfeydd dros dro Amgueddfa ar y Lôn yn Ysbyty Chwarel, Llanberis; Castell Penrhyn a Chaernarfon.

Yn 2025, roedd Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru yn dathlu 175 o flynyddoedd ac yn 2026, mae Amgueddfa Wlân Cymru yn dathlu hanner canmlwyddiant wrth galon y Gymraeg yn Nyffryn Teifi. Diweddarwyd rhai o orielau parhaol Amgueddfa Wlân Cymru, gan gynnwys murluniau trawiadol uniaith Gymraeg gan Ruth Jên ac ailwampio profiad yr ymwelydd.

4.4.2. Digwyddiadau

Mae ein partneriaeth gyda'r Mentrau Iaith yn dal i ffynnu. Er enghraifft, ym mis Mehefin 2025 cynhaliwyd Gŵyl Tawe yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau gyda Menter Iaith Abertawe. Mynychodd 4,762 o bobl – un o'r diwrnodau prysuraf erioed yn yr Amgueddfa. Yn Amgueddfa Wlân Cymru, lansiwyd rhaglen newydd o sesiynau partner gyda Menter Gorllewin Sir Gâr gan gynnwys Clwb Lego a'r Cwtsh Crefft, sef grŵp sgwrsio i siaradwyr Cymraeg ar bob lefel.

Cynhaliwyd dathliadau Cymreig gan gynnwys Plygain, dathliadau Hela'r Dryw a'r Fari Lwyd yn Sain Ffagan, yn ogystal â *Finyl yn y Vulcan* i ddathlu Dydd Miwsig Cymru a gafodd ei ffrydio'n fyw ar Radio Sudd.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar restr dreftadaeth fyw y DU yn rhan o'r ymrwymiad at Gonfensiwn 2003 UNESCO ar ddiogelu treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol. Dyma'r tro cyntaf i Gymru gael cofrestr genedlaethol o arferion diwylliannol byw, gan sicrhau bod y traddodiadau a'r sgiliau sy'n fyw yn ein cymunedau yn cael eu cydnabod yn ffurfiol, eu dathlu a'u cefnogi ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Cynhaliwyd diwrnod o ddathlu yn Sain Ffagan yn rhan o'r ymgynghrair.

Cynhaliwyd rhaglen eang o ddigwyddiadau i blant a theuluoedd ar draws Amgueddfa Cymru gan gynnwys cyfres adrodd straeon a cherddoriaeth Babis Bach yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd; Symudwyr Bach, Siaradwyr Bach, ar y cyd â Blynnyddoedd Cynnar Cymru yn Sain Ffagan a sioe *Dal y Gwynt* gan theatr na nŏg a gweithgareddau gwyddonol ategol yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. Cynhaliwyd Nosweithiau Calan Gaeaf wedi'u hysbrydoli gan lŷn gwerin Cymru yn Sain Ffagan a Big Pit, a digwyddiadau'r Nadolig gan gynnwys Amser Stori gyda Siôn Corn yn Big Pit ac Amser Stori gyda Siân Corn yn Amgueddfa Lechi Cymru.

4.4.3. Addysg

Mae ein rhaglen addysg hybrid yn cynnig cyfuniad o gyrsiau wyneb yn wyneb a digidol dwyieithog sydd ar gael i holl ysgolion Cymru. Yn unol â'r Cwricwlwm newydd i Gymru, rydym yn defnyddio'r dull lluosieithog wrth ddatblygu cynnwys ein sesiynau addysg, gan gynnwys y Gymraeg mewn gweithdai cyfrwng Saesneg fel ffordd o integreiddio ymadroddion a chynnwys Cymraeg. Mae'r dull hwn yn helpu i normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn ddyddiol. Mae rhagor o fanylion y gweithdai a'n hadnoddau addysg ar ein gwefan <https://amgueddfa.cymru/dysgu>.

Rydym hefyd yn cynnal rhaglen o addysg i oedolion gan gynnwys Bore Dysgwyr Cymraeg yn Sain Ffagan a theithiau i ddysgwyr yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd a Menter Caerdydd. Cynhelir sesiynau yn rhan o Wythnos Addysg Oedolion yn Sain Ffagan yn ogystal â sesiynau ar gais e.e. teithiau o'r orielau neu sgysiau gan guraduron.

4.5. Deunydd print a gynhyrchir gan Amgueddfa Cymru

Mae brand Amgueddfa Cymru yn blaenoriaethu ac yn dathlu'r Gymraeg ac yn arddel dull lluosieithog yn ein llais brand. Rydym yn hynod falch o fod yn rhan o'r don newydd o gyrff cenedlaethol sy'n defnyddio'r Gymraeg i arddel 'brand Cymru' ar draws y byd.

Mae ein Strategaeth Amgueddfa Cymru 2030 yn datgan ein hymrwymiad at y Gymraeg yn glir gan nodi bod y Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru ac mae'n rhan allweddol o ddiwylliant a hunaniaeth Amgueddfa Cymru.

Mae dwyieithrwydd yn parhau i fod yn rhan annatod o waith dylunio'r Amgueddfa hefyd ym mhob agwedd ar ein gwaith. Yn unol â'n canllawiau, mae'r Gymraeg yn cael ei gosod uwchben y Saesneg neu ar y chwith. Mae arwyddion a hysbysiadau'r Amgueddfa (gan gynnwys rhai dros dro) yn ddwyieithog. Rydym yn parhau i arloesi ac arwain ym maes dylunio dwyieithog.

Mae ein geirfa ar-lein hefyd yn ffynhonnell ddefnyddiol sydd ar gael i staff a'r cyhoedd fel ei gilydd. Mae'r tîm Cyfieithu a'r laith Gymraeg hefyd yn cynnig gwasanaeth gwirio ac adborth er mwyn cynorthwyo staff sydd am fagu hyder i ysgrifennu yn Gymraeg. Eleni hefyd, treialwyd gweithdai gan staff y Tîm Cyfieithu a'r laith Gymraeg ar gyfer staff mewn adrannau allweddol i gynyddu eu defnydd ysgrifenedig o'r Gymraeg, trwy eu cefnogi i ddysgu mwy am yr adnoddau sydd ar gael a chynyddu eu hyder.

Eleni, i gyd-fynd ag arddangosfa *Gwen John: Hardd a Hynod*, cyhoeddwyd llyfr *Darganfod Gwen John* gan yr Amgueddfa.

4.6. Y wefan, deunyddiau digidol a chyfryngau cymdeithasol

Mae holl dudalennau'r wefan yn cynnwys dolen uniongyrchol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg gan ddilyn yr egwyddor o adeiladu ein gwefannau i greu tudalennau sy'n ddrych o'i gilydd. Rydym yn parhau i hybu'r cynnig rhagweithiol yn ein cyfryngau digidol, gan gynnwys defnyddio ffenestri naid i annog y defnydd o'n tudalennau gwefan Cymraeg ar dudalennau penodol e.e. Tocynnu. Cyhoeddir polisïau, strategaethau, adroddiadau a chynlluniau blynyddol, canllawiau, a datganiadau i'r wasg ar ein gwefan yn ddwyieithog.

Mae ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol yn ddwyieithog, gyda chydbwysedd rhwng cynnwys Cymraeg a Saesneg. Eleni, parhawyd i gefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol sy'n hybu'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol, gan ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg y Comisiynydd Iaith a Dydd Miwsig Cymru.

Mae ein rhaglen Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru, sy'n creu cyfleoedd newydd i bobl ifanc ddatblygu sgiliau a phrofiad yn y sector treftadaeth a'r celfyddydau, yn parhau. Ymhlith cynnwys y flwyddyn a fu mae cyfrif Instagram dwyieithog Bloedd AC yn ogystal â chynnwys ar gyfer arddangosfeydd, e.e. cyfveliadau yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer yr arddangosfa Jessie Knight sydd ar y gorwel.

Rydym yn defnyddio platfform YouTube ar gyfer ein deunydd fideo a ffilmiau. Gosodir isdeitlau Cymraeg a Saesneg ar bob fideo a gyhoeddir.

Rydym hefyd wedi datblygu platfform tocynnau ar-lein cwbl ddwyieithog i alluogi ymwelwyr i archebu a phrynu tocynnau ar gyfer digwyddiadau ac arddangosfeydd yn ein hamgueddfeydd. Mae hyn yn ein galluogi i gasglu data, gan gynnwys dewisiadau megis dewis iaith, fel y gallwn gyfeirio cynnwys at bobl yn eu dewis iaith.

Rydym yn dal i gynnig profiadau realiti estynedig cwbl ddwyieithog yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, yn ogystal â defnyddio systemau mwy ymarferol sy'n hwyluso gweithio'n ddwyieithog e.e. cwmni QR Cymraeg.

4.7. Derbynfeydd

Mae ein derbynfeydd cyhoeddus yn arddangos arwydd sy'n datgan (yn Gymraeg) fod croeso i ymwelwyr ddefnyddio'r Gymraeg ac arwydd iaith Gwaith. Mae staff sy'n gweithio wrth ddesgiau gwybodaeth/derbynfeydd sy'n gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg neu sy'n dysgu Cymraeg yn gwisgo rheffyn neu fathodyn sy'n cyfleu hynny.

4.8. Tendo

Mewn achosion lle mae pwnc y gwahoddiad i dendro yn cynnwys yr angen i'r gwaith gael ei gynhyrchu yn Gymraeg neu pan mae cynulleidfa yn disgwyl cael y gwaith yn Gymraeg, rydym yn cyhoeddi tendr yn Gymraeg a Saesneg. Pan fyddwn yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, byddwn yn nodi y croesewir cyflwyno tendrau yn Gymraeg.

Rydym yn parhau i gydweithio a hyrwyddo cynlluniau'r Llywodraeth â'n partneriaid hefyd (megis Helo Blod a chynllun Cynnig Cymraeg y Comisiynydd Iaith), er enghraifft trwy greu cysylltiadau rhyngddynt â chwmnïau preifat y down i gysylltiad â nhw trwy ddigwyddiadau fel Gŵyl Fwyd Sain Ffagan, marchnadoedd crefftwyr a darparwyr addysg.



5. Llunio polisi (safonau 84-93 a safonau atodol 155-160)

5.1. Cyfrifoldeb

Mae cyfrifoldeb am y Gymraeg a pholisi wedi ei osod ar lefel Gyfarwyddiaeth yr Amgueddfa, dan ofal y Cyfarwyddwr Profiad, Addysg ac Ymgysylltu. Mae unrhyw drafodaethau parthed effaith polisiau neu strategaethau corfforaethol ar yr iaith Gymraeg yn rhan annatod o broses benderfyniadau Uwch Arweinwyr a Thîm Gweithredol Amgueddfa Cymru.

5.2. Llunio, adolygu neu addasu polisi

Mae canllawiau mewnol yn seiliedig ar ganllawiau'r Comisiynydd ar Safonau Llunio Polisi yn cynnig adnodd hawdd i'w ddefnyddio ar gyfer staff Amgueddfa Cymru. Maen nhw'n cynnwys ffurflen sy'n cofnodi'r holl broses, ac a gedwir yn gofnod o unrhyw benderfyniad a wneir o safbwynt polisi a'r Gymraeg. Mae'r canllaw ar gael ar y Fewnrwyd i holl staff Amgueddfa Cymru.

5.3. Comisiynu neu wneud gwaith ymchwil

Wrth gomisiynu neu wneud gwaith ymchwil fydd yn sail i benderfyniadau polisi, byddwn yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r safonau perthnasol.



6. Gweithredu (safonau 94-140 a safonau atodol 161-166)

6.1. Polisi newydd i gynyddu ein defnydd mewnol o'r Gymraeg

Un o brif lwyddiannau'r flwyddyn oedd cyhoeddi ein polisi defnydd mewnol pwrpasol ac ymarferol, *Amgueddfa Fyw, Iaith Fyw*. Mae'r polisi yn seiliedig ar ymchwil a data, ac yn fodel newydd i'r corff am ei fod yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer cydymffurfiaeth ar draws Amgueddfa Cymru ond hefyd yn creu lle i lunio cynlluniau datblygu unigol ar gyfer pob amgueddfa a safle. Gwnaed hyn er mwyn adlewyrchu cymeriad, demograffeg a chyd-destun ein gwahanol amgueddfeydd a chreu hinsawdd sy'n gweddu pob sefyllfa unigol. Mae'r neges yn glir yn y polisi hefyd ein bod yn dathlu cyfraniad pob aelod o staff at yr iaith, waeth ble maen nhw ar eu taith â'r iaith, a p'un a ydynt yn siaradwyr hyderus neu'n dysgu, neu'n gefnogwyr i'r iaith.

Rhwng nawr a 2050, dyma fydd ein nod hirdymor ar gyfer y Gymraeg o fewn Amgueddfa Cymru:

Mae Amgueddfa Cymru yn lle i ni i gyd ddefnyddio, mwynhau a chefnogi'r Gymraeg ble bynnag ydym ni ar ein taith gyda'r iaith, gan ddangos a dathlu ei bod yn rhan annatod o'n casgliadau a'n profiadau.

Ymhlith y camau datblygu oedd gwneud ymchwil trylwyr gyda holl staff Amgueddfa Cymru – am y tro cyntaf cafwyd darlun cyflawn o arferion ieithyddol staff ar draws y corff, o ddefnydd a hyder llafar ac ysgrifenedig, i ddealltwriaeth ac agweddau tuag at y Gymraeg. Byddwn yn cyhoeddi compendiwm o'r data yn 2026 i gyd-fynd â chynllun gweithredu Amgueddfa Cymru. Bydd y cynllun gweithredu yn cynnwys rhaglen newydd o hyfforddiant ar gyfer y corff cyfan, gan gynnwys Tiwtor Cymraeg Gwaith ar gyfer y corff dan nawdd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol; mynediad at gyrsiau fel y Dystysgrif Sgiliau Iaith a chysiau mewnol wedi'u teilwra at anghenion timoedd ac adrannau.

Rydyn ni yn y broses o weithio gyda phob safle yn ei dro hefyd i ddatblygu eu cynlluniau datblygu unigol – un o gonglfeini'r polisi newydd – a fydd yn cael eu cyhoeddi wrth iddynt gael eu llunio. Cafodd y polisi gydsyniad Pwyllgor Monitro'r Gymraeg, y Fforwm Arweinyddiaeth, yr Uwch Dîm Gweithredol a Phwyllgor Addysg ac Ymgysylltu'r Ymddiriedolwyr.

Mae'r polisi bellach ar ein gwefan www.amgueddfa.cymru/ygymraeg, ac rydym yn edrych ymlaen at adrodd ymhellach ar y gwaith hwn dros y blynyddoedd nesaf.

6.2. Darparu dogfennau dwyieithog

Ymhlith y dogfennau a ddarperir yn ddwyieithog i staff, mae:

- contract cyflogaeth neu contract am wasanaethau
- unrhyw ohebiaeth bapur sy'n ymwneud â chyflogaeth
- unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu anghenion neu ofynion hyfforddiant, amcanion perfformiad a/neu gynllun gyrfa
- ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi oriau gwaith hyblyg (cofnodir gwyliau ac absenoldebau o'r gwaith ar system electronig CIPHR)
- ein holl bolisiau gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, y canlynol:
 - ymddygiad yn y gweithle
 - iechyd a lles yn y gweithle
 - cyflogau neu fuddion yn y gweithle
 - rheoli perfformiad
 - absenoldeb o'r gwaith
 - amodau gwaith
 - patrymau gwaith.

6.3. Cwynion mewnol a gweithdrefnau disgyblu

Mae proses gwynion a disgyblu'r Amgueddfa yn caniatáu i bob aelod o staff gyflwyno cwyn neu ymateb i unrhyw gŵyn neu honiad a wnaed amdanynt yn Gymraeg, cynnal cyfarfodydd neu achosion disgyblu, ac unrhyw ganlyniadau neu benderfyniadau sy'n deillio o hyn, yn Gymraeg.

6.4. Meddalwedd TGCh

Mae ein system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid dwyieithog yn ein galluogi i gofnodi dewis iaith, casglu data defnydd a datblygu darlun cliriach o anghenion ac arferion ein cynulleidfaoedd Cymraeg er mwyn gwella'u profiadau. Gweithiwyd gyda chwmni rhyngwladol nid-er-elw Tessitura ar y feddalwedd, a dyma'r rhyngwyneb blaen swyddfa dwyieithog cyntaf iddyn nhw ei greu.

Mae'r Amgueddfa'n darparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg i'r staff, ac yn darparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (pan fo rhyngwyneb ar gael).

Defnyddir system Cyfieithu Cymru (Canolfan Bedwyr) ar draws Amgueddfa Cymru sy'n galluogi gweinyddu electronig effeithlon a defnydd o gof cyfieithu.

6.5. Y Fewnrwyd

Cafodd y Fewnrwyd ei datblygu'n fewnol ac mae wedi'i chreu i fod yn gwbl ddwyieithog. Mae'n cynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i) ffurflenni, dogfennau cynorthwyol cyllid, y llawlyfr staff, systemau a thempledi mewnol. Mae adran eang am y Gymraeg sy'n cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am hyfforddiant a sgiliau ffurfiol ac anffurfiol, clybiau a gweithgareddau, adnoddau cyfrifiadurol, y cyfryngau cymdeithasol, y safonau, hawliau iaith a chanllawiau.

Mae gennym system electronig ar gyfer anfon negeseuon i'r holl staff o'r enw Sgwrs ac mae'r negeseuon a anfonir yn ddwyieithog, ac mae cylchlythyr ein gwirfoddolwyr yn ddwyieithog.

6.6. Hyfforddiant Iaith

Cynigir nifer o wahanol fathau o hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol am ddim ac o fewn oriau gwaith er mwyn cynorthwyo ein staff i ddysgu a defnyddio eu Cymraeg. Yn ystod 2026-27 bydd ein harlwy yn cael ei gweddnewid yn sgil penodi Tiwtor Cymraeg Gwaith i'r corff, dan nawdd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a chynllun gweithredu ein polisi defnydd mewnol.

Dyma nifer y staff a gwblhaodd hyfforddiant dysgu Cymraeg ffurfiol yn 2025/26:

Lefel	Nifer 2021/22	Nifer 2022/23	Nifer 2023/24	Nifer 2024/25	Nifer 2025/26
Cwrs Croeso	0	0	0	2	2
Mynediad	13	13	10	8	8
Sylfaen	1	4	3	2	2
Canolradd	10	6	5	1	2
Canolradd/Uwch Preswyl	0	0	1	0	0
Uwch	1	10	6	2	6
Gloywi	-	-	-	1	0
Cyfanswm	25	33	25	16	20

Mae gennym ddogfen datblygu sgiliau iaith at ddefnydd staff a rheolwyr llinell sy'n mynd law yn llaw â chynllun rheoli ac adolygu perfformiad staff.

6.7. Recriwtio

Caiff anghenion iaith pob swydd newydd eu hasesu trwy ddefnyddio pecyn asesu sy'n seiliedig ar erfyn diagnostig Cydbwyllgor Addysg Cymru. Mae pob swydd yn cael ei hysbysebu yn Gymraeg a Saesneg a chroesewir ceisiadau yn Gymraeg neu Saesneg. Nid yw ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg. Darperir pob ffurflen gais, deunydd esboniadol, gwybodaeth am ein proses gyfweld a disgrifiadau swydd yn Gymraeg.

Mae lle i unigolion nodi eu sgiliau iaith ar y ffurflen gais a hefyd a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg mewn cyfweliad.

Yn unol â safon 148 (Cadw cofnodion), hysbysebwyd swyddi newydd a gwag fel a ganlyn:

Lefel iaith angenrheidiol	Nifer 2022/23	Nifer 2023/24	Nifer 2024/25	Nifer 2025/26
Sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol	38	6	36	21
Angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd	0	0	0	1
Sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol	74	30	89	114
Sgiliau yn y Gymraeg ddim yn angenrheidiol	0	0	8	0

7. Cadw cofnodion (safonau 141-148 a safonau atodol 167-168)

7.1. Asesu sgiliau iaith staff

Gall staff ddewis cofnodi a ydynt yn siarad Cymraeg (ac ieithoedd eraill) neu yn eu dysgu ar eu proffil ar y Fewnrwyd. Fodd bynnag at ddibenion cynllunio iaith Gymraeg y gweithlu, defnyddir system o hunan-gofnodi lefel sgil Cymraeg ar ein system adnoddau dynol electronig, CIPHR. Mae'r lefelau a gofnodir yn gyson â Chwricwlwm Cenedlaethol Cymraeg i Oedolion, sydd hefyd yn cyd-fynd â'r Fframwaith Gyfeirio Ewropeaidd Gyffredin ar gyfer ieithoedd (sef CEFR, 'Common European Framework of Reference for Languages').

Cymwysterau CBAC/CDCG	Fframwaith CEFR
Mynediad	A1
Sylfaen	A2
Canolradd	B1
Uwch	B2
Hyfedredd	C1

Yn unol â safon 145, dyma nifer a chanran y staff a chanddynt sgiliau Cymraeg ar 31 Mawrth 2026:

Lefel	Nifer y staff 2023/24	Canran y staff 2023/24	Nifer y staff 2024/25	Canran y staff 2024/25	Nifer y staff 2025/26	Canran y staff 2025/26
Mynediad A1	144	15%	141	15.5%	109	14.95%
Sylfaen A2	52	5%	46	5%	37	5.08%
Canolradd B1	55	6%	48	5.3%	39	5.35%
Uwch B2	62	6.5%	60	6.6%	51	7.00%
Hyfedredd C1*	265	27.5%	241	26.6%	173	23.73%
Dim	267	28%	226	25%	186	25.52%
Heb gwblhau	117**	12%	146**	16%	134**	18.38%
Cyfanswm	962	100%	907	100%	729	100%

* Cynhwysir nifer y siaradwyr rhugl yn y nifer hwn, p'un a ydynt wedi dysgu Cymraeg neu yn siaradwyr mamiaith.

** Mae canran uchel o staff heb gwblhau'r data a allai effeithio ar y canlyniad. Rydym yn cydweithio â'r rheolwyr i fynd i'r afael â hyn gyda'u timoedd.

Dyma nifer a chanran yr Ymddiriedolwyr a chanddynt sgiliau Cymraeg ar ddiwedd 2025/26:

Lefel iaith	Nifer yr Ymddiriedolwyr 2024/25	Canran yr Ymddiriedolwyr 2024/25	Nifer yr Ymddiriedolwyr 2025/26	Canran yr Ymddiriedolwyr 2025/26
Mynediad A1	2	13%	2	13%
Sylfaen A2	3	20%	3	20%
Canolradd B1	1	7%	1	7%
Uwch B2	1	7%	1	7%
Hyfedredd C1*	6	40%	6	40%
Dim	2	13%	2	13%
Heb gwblhau	0	0%	0	0%
Cyfanswm	15	100%	15	100%

* Cynhwysir nifer y siaradwyr rhugl yn y nifer hwn, p'un a ydynt wedi dysgu Cymraeg neu yn siaradwyr mamiaith.

Yn 2025/26, nododd 43% o'n gwirfoddolwyr fod ganddynt ryw gymaint o Gymraeg (Rhugl / Ychydig / Dysgwr).

Ym mis Gorffennaf 2025, cynhaliwyd Wythnos Profiad Gwaith gan gynnwys sesiwn am weithleoedd dwyieithog a llwybrau at yrfaedd yn Gymraeg. Roedd 61% o'r mynychwyr yn siaradwyr Cymraeg yn rhugl, a 97% o'r mynychwyr â rhyw gymaint o Gymraeg (Rhugl / Ychydig / Dysgwr).



7.2. Cyrsiau hyfforddi

Yn unol â safon 146, dyma nifer a chanran y staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennym yn Gymraeg yn 2025/26:

Cwrs	Nifer a fynychodd y cwrs Cymraeg	Nifer a fynychodd y cwrs Saesneg	Canran a fynychodd y cwrs yn Gymraeg
Defnyddio CIPHR	11	40	21.6%
Ychwanegu eitemau at ddangosfwrdd CIPHR	4	25	13.8%
Canllawiau CIPHR	3	24	11.1%
Mynediad o bell at CIPHR	7	44	14%
Sut i gynnal cyfweiliad dychwelyd i'r gwaith	5	12	29.4%
Sut i amgryptio e-byst	6	7	46%
Sut i roi Labeli Sensitif ar e-byst	8	5	61.5%
Sut i nodi cyfweiliad dychwelyd i'r gwaith ar CIPHR	4	29	12%
Sut i riportio neges yn MS Teams	7	7	50%
Mewnbynnu cofnod salwch ar CIPHR	5	29	14.7%
Manylion swydd a thâl	4	27	12.9%
Canllawiau i reolwyr llinell	0	5	0%
Manylion personol	7	30	18.9%
Hyfforddiant RingCentral	1	10	9.1%
Gwyliau – absenoldeb	6	29	17.1%

Yn ogystal, mynychodd 320 o staff gwrs dwyieithog Cysyniadau Allweddol Seiberddiogelwch.

Mae canfod darparwyr achrededig Cymraeg yn gallu bod yn her mewn rhai meysydd. Byddwn yn parhau i gydweithio â chyrff ar draws y gwahanol sectorau ble bynnag posibl i ganfod a chomisiynu hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cafodd aelod o staff Amgueddfa Cymru ei dewis i fod yn aelod o Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol. Datblygodd broiect yn edrych ar y croestoriadedd rhwng cynaliadwyedd, natur a'r Gymraeg gan lunio argymhellion am ffyrdd y gellid cynnwys hyn ein gwaith. Gobeithiwn weld ffrwyth ei llafur yn ein gwaith dros y blynyddoedd nesaf.

Trwy broiect dan nawdd allanol, datblygwyd hyfforddiant gwreiddiol gyda hwylusydd allanol o'r enw Dod yn ôl at Fy Nghoed, oedd yn archwilio'r berthynas rhwng y Gymraeg a natur gyda'r nod o wella iechyd a llesiant staff. Cymerodd 11 aelod o staff ran yn y cyrsiau.

7.3. Datrys cwynion

7.3.1. Cwynion

Mae gennym system adborth a chwynion sy'n prif-ffrydio'r Gymraeg ac yn codi ymwybyddiaeth o hawliau defnyddwyr. Gellir cyflwyno cwyn, sylw neu adborth ar ein gwefan neu yn unrhyw un o'n safleoedd. Mae pob cŵyn ynghylch y Gymraeg yn cael ei anfon at Reolwr y Gymraeg sy'n cadw cofnod canolog ac yn ymateb yn yn unol â'r amserlen gorfforaethol sef cydnabyddiaeth o leiaf o fewn 7 diwrnod gwaith ac ateb llawn o fewn 14 diwrnod gwaith. Mae copi o drefn gwyno ac adborth yr Amgueddfa ar ein gwefan ac ym mhob derbynfa hefyd.

Cafwyd un gŵyn fewnol gan aelod o staff parthed camgymeriadau mewn llythyr mewnol at yr unigolyn gan yr adran Adnoddau Dynol. Cafodd systemau mewnol y tîm eu hadolygu a'u hailwampio yn sgil hyn, ac yn ogystal treialwyd sesiwn hyfforddi gyda staff dethol o fewn y tîm AD gan y Tîm Cyfieithu a'r Iaith Gymraeg am yr adnoddau sydd ar gael i'w cefnogi a chynyddu eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith.

Cafwyd dau gŵyn allanol:

1. Roedd y gŵyn gyntaf ynghylch cwrs Saesneg yn unig a gynhaliwyd yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. Yn dilyn ymchwiliad i'r mater, canfuwyd na fu tor-cydymffurfiaeth. Cynhelir cyfuniad o gyrsiau Cymraeg yn unig, Saesneg yn unig a dwyieithog ar draws Amgueddfa Cymru gan ystyried cydbwysedd iaith y rhaglen ddigwyddiadau yn ei chyfanrwydd, yn unol â'n trafodaethau ar y pwnc hwn â swyddfa'r Comisiynydd Iaith yn 2021. Cytunwyd fodd bynnag gyda'r achwynydd fod y geiriad a ddefnyddiwyd i ddisgrifio iaith y sesiwn yn foel ac nad oedd yn cynnig digon o gyd-destun i esbonio iaith y cwrs. Diweddarwyd y geiriad.
2. Derbyniwyd cwyn parthed nwyddau oedd ar werth yn siop Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru. Yn dilyn ymchwiliad i'r mater, canfuwyd bod tor-cydymffurfiaeth wedi digwydd gan fod logo uniaith Saesneg ar rai nwyddau, yn hytrach na logo dwyieithog safonol. Lluniwyd pecynnau dros dro newydd fel datrysiad tymor byr, a lluniwyd cynllun ehangach i adolygu nwyddau'r siop a chydweithio gyda'r amryw gwmnïau allanol perthnasol i ail-ddylunio'r pecynnau ar gyfer rhai eitemau. Diwygiwyd y weithdrefn ar gyfer unrhyw brojectau tebyg yn y dyfodol.

7.3.2. Cwynion gan y Comisiynydd Iaith

Yn ystod 2025/26, ni ddaeth unrhyw gwynion i law gan swyddfa'r Comisiynydd Iaith.